

Atodiad B – Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Eich Enw: Emyr Roberts

Sefydliad: Cyfoeth Naturiol Cymru

E-bost: emyr.roberts@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Eich Cyfeiriad: Tŷ Cambria
29 Heol Casnewydd
Caerdydd
CF24 0PT

Sylwadau Cyffredinol

Croesawn y Strategaeth a chytunwn â'i ffocws ar integreiddio gwaith rheoli dŵr a thir o dan y dull cynllunio adnoddau naturiol ehangach. Cefnogwn ei hegwyddorion sylfaenol yn llawn, sef cynllunio ar sail dalgylch a defnyddio'r dull gweithredu ar sail ecosystem i reoli dŵr a thir. Credwn y bydd cyflawni'r Strategaeth yn helpu i sicrhau'r buddiannau mwyaf posibl y gallai amgylchedd dŵr a reolir yn gynaliadwy eu cyflawni i'r economi a chymdeithas yng Nghymru.

Teimlwn y gellid gwella'r Strategaeth ymhellach drwy gynnwys 'gweledigaeth' glir. Byddai hynny'n helpu i integreiddio elfennau gwahanol o'r Strategaeth ac yn rhoi ymdeimlad cydlynol o gyfeiriad wrth ddefnyddio dŵr yn y dyfodol yng Nghymru. Byddem yn falch iawn o weithio gyda Llywodraeth Cymru er mwyn diffinio'r weledigaeth hon. Fel awgrym cychwynol, credwn y dylai Llywodraeth Cymru fod yn anelu at sefydlu Cymru fel gwlad a gydnabyddir yn genedlaethol lle mae gwaith rheoli dŵr da yn darparu digon o ddŵr o ansawdd da a lle y caiff y tir ei reoli mewn modd cynaliadwy. Credwn y dylem fod yn chwilio am enghreifftiau yma a thramor o ddatrysiadau arloesol i'n problemau o ran rheoli dŵr ac yna'n meithrin cydberthynas waith integredig a chydweithredol rhwng y llywodraeth, cymunedau lleol, sefydliadau trydydd parti, rheoleiddwyr a'r sector preifat er mwyn sicrhau dull gweithredu cynaliadwy ar sail dalgylch a fyddai'n destun eiddigedd i weddill y byd.

Credwn hefyd y dylai'r Strategaeth gynnwys cyfres o dargedau clir ac uchelgeisiol er mwyn helpu i gyflawni'r weledigaeth. Dylai'r targedau hyn ddefnyddio dull "rhagweld" er mwyn profi'r rhagolygon yn erbyn amrywiaeth o sefyllfaoedd posibl yn y dyfodol. Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru brofiad yn hyn o beth a byddem yn croesawu'r cyfle i weithio gyda Llywodraeth Cymru er mwyn helpu i ddatblygu cyfres o dargedau ar gyfer y Strategaeth.

Mae'n bwysig bod y Strategaeth yn cael ei hintegreiddio'n llawn â chynlluniau, strategaethau a deddfwriaethau eraill Llywodraeth Cymru, yn enwedig Bil Cenedlaethau'r Dyfodol, Bil yr Amgylchedd, y Bil Cynllunio a Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd. Mae cyflawni Cynllun Gweithredu Strategol y Môr a Physgodfeydd y Llywodraeth, ac yn benodol ddatblygu Cynllun Morol Cenedlaethol cyntaf Cymru, hefyd yn gyfle pwysig i integreiddio amcanion ar gyfer adnoddau morol a dŵr croyw. Yn yr un modd, dylid ystyried cynlluniau a strategaethau sefydliadau eraill gan gynnwys cwmnïau dŵr ac Ofwat, ynghyd â strategaethau a deddfwriaethau eraill yn y DU.

Mae'r Crynodeb o'r Asesiad o Risgiau Newid Hinsawdd i Gymru (a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2012) yn cydnabod y canlynol:

- Mae 20% o'r boblogaeth ac un o bob chwe eiddo yn wynebu risg o lifogydd arfordirol, lifogydd afonydd neu fath arall o lifogydd.
- Mae llifogydd yn peri mwy o fygythiad yng Nghymru na gweddill y DU, gyda fflachlifogydd a thirlithriadau yn bryder penodol am fod llawer o dirlun Cymru mor serth.
- Mae adnoddau dŵr daear yn brin iawn, gan olygu ein bod yn dibynnu ar ddŵr wyneb i ddiwallu anghenion cartrefi a busnesau.
- Er gwaethaf lefelau cymharol uchel o law, gall Cymru deimlo pwysau sylweddol ar ei chyflenwadau dŵr.

Er bod y Strategaeth yn nodi effaith newid yn yr hinsawdd, y defnydd a wneir o ynni a phoblogaeth sy'n tyfu, nid yw'n nodi'n glir sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu darparu a diogelu cyflenwadau dŵr a ffyrdd eraill o ddefnyddio dŵr yn y dyfodol.

Er mwyn manteisio'n llawn ar y cyfalaf naturiol a gynigir gan ein hamgylchedd dŵr, hoffem i'r Strategaeth edrych y tu hwnt i weithgareddau sy'n gysylltiedig â chwmnïau dŵr a chynnwys pob gwasanaeth dŵr ac ecosystem ddibynnol yng Nghymru, gan gynnwys yr amgylchedd morol.

Rydym wedi nodi ein hymatebion i gwestiynau'r ymgynghoriad isod. Edrychwn ymlaen at weithio gyda Llywodraeth Cymru er mwyn gweithredu'r Strategaeth dros y blynyddoedd nesaf.

Cwestiynau'r Ymgynghoriad

A fydddech cystal ag ymateb i'r holl gwestiynau hynny sy'n berthnasol i'ch meysydd o ddiddordeb. Bydd unrhyw dystiolaeth ategol yn helpu i ddadansoddi ymatebion.

Dŵr ar gyfer Natur, Pobl a Busnes
1. O safbwynt gweithredu'r ddeddfwriaeth, a oes unrhyw feysydd penodol yr hoffech i ni ganolbwyntio arnynt?
<p>Argymhellwn y dylid atgyfnerthu rheoliadau Silwair, Slyri ac Olew Tanwydd Amaethyddol a'u cynnwys yn y gyfundrefn Drawsgydymffurfio er mwyn lleihau'r risg o lygredd o systemau storio slyri a helpu i reoli gweithgareddau y tu hwnt i fuarth y fferm. Byddai hyn yn helpu i fynd i'r afael â'r risgiau o lygredd mewn gorsafoedd bwydo ategol ac ar lonydd fferm, er enghraifft.</p> <p>Croesawn y cyfle i weithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu Sancsiynau Sifil ar gyfer troseddau o dan y Rheoliadau Silwair, Slyri ac Olew Tanwydd Amaethyddol a Thrwyddedu Amgylcheddol.</p> <p>Croesawn hefyd y gwaith o ddatblygu safonau a chanllawiau cenedlaethol ar gyfer systemau draenio cynaliadwy yng Nghymru. Rydym eisoes yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill ledled Cymru er mwyn adolygu addasrwydd Atodlen 3 i Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2910 cyn datblygu'r safonau.</p> <p>Hoffem weld mwy o eglurder ynghylch rôl y Corff SDCau newydd arfaethedig y cyfeirir ato yn y ddogfen Strategol.</p>

Ar nodyn mwy cyffredinol, credwn y bydd angen i sefydliadau gydweithio er mwyn gweithredu datrysiadau effeithiol i lawer o'n problemau sy'n gysylltiedig â dŵr. Hoffem weld Llywodraeth Cymru yn adolygu'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau polisi presennol er mwyn sicrhau ei bod yn cefnogi'r dull gweithredu integredig hwn.

Byddem yn eich annog i ystyried dulliau gweithredu newydd cymesur ac sy'n seiliedig ar risg fel rheolau rhwymo cyffredinol a chymhellion economaidd er mwyn sicrhau'r canlyniadau rydym yn anelu atynt.

2. A oes gennych chi unrhyw awgrymiadau ar gyfer gwella ac ehangu cyfranogiad cymunedau mewn dulliau rheoli dalgylchoedd integredig?

Cytunwn y dylid cynnwys y gymuned yn fwy er mwyn rheoli adnoddau naturiol mewn ffordd integredig. Awgrymwn y bydd Paneli Cyswllt Basn Afon y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr yn rhoi cyfeiriad strategol ond mae angen i ni chwilio am ddatrysiadau arloesol ym maes ymgysylltu lleol.

Defnyddiwyd cyfres o weithdai dalgylch er mwyn helpu i ymgynghori ar y Cynlluniau Rheoli Basn Afon diweddar. Gwelwn rôl glir i'r partneriaethau anffurfiol hyn yn y dyfodol wrth helpu nid yn unig i weithredu camau gweithredu Cynlluniau Rheoli Basn Afon, ond hefyd fel ffordd allweddol o reoli adnoddau naturiol mewn modd integredig - yn unol â chynigion Bil yr Amgylchedd. Yr her fydd sicrhau bod y broses hon yn dylanwadu ar gamau gweithredu y tu hwnt i ddalgylchoedd, yn ogystal ag oddi mewn iddynt.

Mae ein prosiect Nentydd Clir yn rheoli ansawdd dŵr mewn ffordd integredig, gan fynd i'r afael â llygredd yn y tarddiad yn ogystal â datblygu agenda 'meddalach, sydd â'r nod o godi ymwybyddiaeth pobl o'r amgylchedd a'u sensitifrwydd iddo. I'r perwyl hwn, mae gennym nifer o brosiectau sy'n helpu pobl i ddarganfod eu hamgylchedd, gan gynnwys 'Nentydd Digidol' lle mae aelodau o'r gymuned yn mynd i fforio eu hafon leol o'i tharddiad i'r môr, gan gofnodi'r hyn y maent yn ei ganfod drwy ffotograffau a gwaith ysgrifenedig.

Yn ogystal â'r enghraifft uchod, awgrymwn y gellir cynnwys y gymuned yn fwy drwy weithio gyda phartneriaid eraill fel Mentrau Bach a Chanolig, Awdurdodau Lleol a sefydliadau masnachol sy'n seiliedig ar aelodau er mwyn nodi'r bobl sy'n barod i wneud mwy nawr. Ceir enghraifft o'r ffordd rydym wedi gweithio gyda busnes yn ein hymateb i gwestiwn 25.

Bydd angen newid ymddygiadau er mwyn gwella'r amgylchedd dŵr, a dim ond os byddwn yn meithrin dealltwriaeth well o'r cwsmeriaid allweddol yn gyntaf, ac yn ceisio deall eu barn a'u credoau, y bydd hyn yn bosibl.

O brofiad, mae grwpiau cymunedol a gaiff eu sefydlu i gyflawni canlyniadau amgylcheddol yn tueddu i ddibynnu ar un neu ddau unigolyn allweddol a gallant fynd yn llai effeithiol dros amser os bydd yr unigolion hyn yn gadael y grŵp. Awgrymwn y dylai'r gwaith o gynnwys y gymuned ehangach ganolbwyntio ar grwpiau cymunedol sy'n bodoli eisoes ac ymgysylltu â'r grwpiau hyn er mwyn ystyried materion eraill sy'n ymwneud â dŵr. Mae angen eu helpu i ddatblygu cyfalaf ariannol a deallusol cynaliadwy.

Er ein bod yn cydnabod y gallai cynnwys y gymuned fod yn ffordd hynod effeithiol o fynd i'r afael â rhai o'r heriau a wynebwn, rhaid i ni gydnabod nad yw'n cynnig ateb i bopeth. Bydd y rhan fwyaf o'r ymgysylltu yn ymwneud â'r materion unigol hynny sydd o ddiddordeb i unigolion, tra bod Llywodraeth Cymru yn chwilio am ddulliau holistaidd ehangach. Bydd manteisio i'r eithaf ar y ddau ddull gweithredu hyn yn heriol, ac anogwn Lywodraeth Cymru i edrych y tu hwnt

i dulliau gweithredu arferol er mwyn dod o hyd i dechnegau a dulliau arloesol o ddysgu ac achub ar unrhyw gyfleoedd.

3. Rydym wedi dangos y cysylltiadau agos rhwng rheoli tir a rheoli'r amgylchedd dŵr. A ydych chi'n ymwybodol o enghreifftiau o arfer da y byddai'n bosibl eu hailgynhyrchu mewn mannau eraill?

Bydd yn bwysig nodi yn y dyfodol y caiff dulliau cyflawni eu sefydlu er mwyn rheoli materion yr amgylchedd mewn ffordd integredig lle mae dŵr yn elfen bwysig, yn hytrach na dim ond rheoli dŵr er mwyn ystyried materion rheoli tir ehangach.

Bydd llwyddiant y Strategaeth yn dibynnu'n fawr ar y modd y bydd rheolwyr tir yn newid y ffordd y maent yn gweithio, ar ôl deall yn gyntaf y cysylltiadau rhwng eu gweithredoedd a'r effeithiau ar yr amgylchedd dŵr. Dim ond pan gaiff enghreifftiau o arfer da - yn enwedig y rheini sy'n niwtral o ran cost neu sy'n cynnig budd economaidd i reolwyr tir - eu lledaenu'n eang y llwyddir i feithrin y ddealltwriaeth hon.

Mae gennym lawer o enghreifftiau o'r cysylltiadau rhwng rheoli tir a'r amgylchedd dŵr yng Nghymru. Awgrymwn hefyd y dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio enghreifftiau o arfer gorau o bwynt cyfeirio byd-eang. Edrychwn ymlaen at weithio gyda Llywodraeth Cymru er mwyn nodi enghreifftiau byd eang o waith rheoli tir a dŵr integredig.

Mae'r cynlluniau a amlinellir uchod, nid yn unig wedi darparu amrywiaeth llawer mwy o fuddiannau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd o gymharu â dulliau gweithredu traddodiadol, maent wedi bod yn fwy cost-effeithiol hefyd. Yn hytrach nag amlinellu'r holl brosiectau rydym yn ymwybodol ohonynt, rydym wedi cyfeirio at rai enghreifftiau yng Nghymru isod er mwyn rhoi blas o'r hyn sy'n bosibl. Mae rhagor o enghreifftiau o sut mae Cyfoeth Naturiol Cymru ac eraill wedi gweithio ar brosiectau integredig yng Nghymru ar gael ar [Wefan Llywodraeth Cymru](#). Byddem yn fwy na pharod i roi rhagor o wybodaeth am y prosiectau hyn pe bai'n ddefnyddiol:

Pontbren

Dull cynaliadwy o reoli tir mynydd a arweinir gan ffermwyr. Defnyddiodd prosiect Pontbren waith rheoli coetir a phlannu coed i wella effeithlonrwydd ffermio da byw mynydd. Dangosodd fod lleiniau cysgodi a lleiniau clustogi nid yn unig yn gwella busnesau fferm a chynefinoedd bywyd gwylt, ond hefyd yn lleihau dŵr ffo yn ystod cyfnodau o law trwm. Mae'r data gwyddonol o brosiect Pontbren bellach yn cael eu defnyddio i astudio effeithiau'r defnydd a wneir o dir ar ddalgylchoedd mwy o faint sy'n agored i lifogydd.

Llanelli

Mae Dŵr Cymru yn buddsoddi £15 miliwn yn ardal Lanelli a Thre-gŵyr fel rhan o gynllun GlawLif. Nod GlawLif yw lleihau faint o ddŵr glaw sy'n llifo i mewn i systemau draenio cyhoeddus lleol a bydd felly'n lleihau'r risg o lifogydd. Rhagwelir y bydd cynlluniau yn Llanelli a Thre-gŵyr yn atal tua 20% o'r dŵr wyneb sy'n llifo i mewn i'r rhwydwaith carthffosiaeth yn yr ardaloedd hyn ar hyn o bryd. Byddant hefyd yn gosod ardaloedd wedi'u plannu a man gwyrdd newydd a fydd yn amsugno'r dŵr. Mae Dŵr Cymru yn datblygu cynlluniau mewn partneriaeth â Chyngor Sir Caerfyrddin a ni.

Grangetown

Rydym yn gweithio gyda Dŵr Cymru a Chyngor Caerdydd ar y cynllun rheoli dŵr wyneb hwn. Mae gwaith bellach yn mynd rhagddo i roi astudiaeth ddichonoldeb ar waith ar gyfer y prosiect hwn, sydd â'r nod o leihau carbon mewn gorsafoedd

pwmpio i lawr yr afon, lleihau lifogydd dŵr wyneb a gwella bioamrywiaeth. Mae'r cynllun hefyd yn bwriadu uno'r rhan hon o'r ddinas gyda'r amgylchedd afonol tra'n gwella ei chysylltiad â Bae Caerdydd. Bydd y cam cynllunio ac ymgynghori â'r cyhoedd yn dechrau ym mis Mehefin 2014. Bydd y gwaith adeiladu yn dechrau ar ddiwedd y flwyddyn.

Maesteg

Rydym yn gweithio gyda Dŵr Cymru a chymdeithas tai y Cymoedd i'r Arfordir ar y cynllun Dylunio Trefol sy'n Sensitif i Ddŵr hwn. Ein gobaid hwn yw bydd hyn yn arwain at fanteision ehangach am fod 16% o'r eiddo yng Nghymru yn dai cymdeithasol. Mae'r manteision yn cynnwys lleihau gollyngiadau carthffosiaeth, llai o ddŵr wyneb yn gorlifo a llai o alw am ddŵr drwy fesurau effeithlonrwydd dŵr. Bydd y dull gweithredu ar sail ecosystem a ddefnyddir i ddatblygu a chyflawni'r gwaith hwn yn helpu i sicrhau gwelliannau ecolegol a chemegol sy'n gysylltiedig â'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr. Bydd y partneriaid yn comisiynu astudiaeth ddichonoldeb erbyn diwedd y flwyddyn.

Er mwyn i ni gymhwyso'r mathau hyn o ddatrysiadau hyn yn ehangach, bydd angen i Lywodraeth Cymru ddarparu'r adnoddau i'n galluogi i godi'r arfer da ac arddangos ble a sut y gellir ei gymhwyso mewn ffordd sy'n darparu mwy o ddatrysiadau cost-ffeithiol neu well yn lle'r datrysiadau "ar ddiwedd y bibell" rydym yn gyfarwydd iawn â hwy. Er enghraifft, mae gennym flynyddoedd o brofiad o amcangyfrif cost a lefel y diogelwch a roddir gan gynllun amddiffyn rhag llifogydd, ond nid oes gennym y gallu o hyd i amcangyfrif i ba raddau y gallai ymyriadau rheoli tir leihau'r risg o lifogydd na chostau hirdymor ymyriadau o'r fath a allai yn yr un modd leihau llifogydd.

Y rhwystr arall y mae angen ei oresgyn yw perchenogaeth cynlluniau a sut y cânt eu hariannu. Er enghraifft, caiff datrysiadau ar ddiwedd y bibell yn aml eu hariannu o gyfalaf ac mae ganddynt berchennog clir, a chyllideb refeniw penodol ar gyfer cynnal a chadw. Nid yw bob amser yn glir pwy ddylai fod yn "berchen" ar ddatrysiadau rheoli tir a thalu amdanynt, na sut y byddai unrhyw gyllideb ar gyfer cynnal a chadw yn cael ei sicrhau.

Edrychwn ymlaen at weithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r adnoddau i gymharu'r dull rheoli tir gyda'r datrysiad 'ar ddiwedd y bibell'.

4: Pa gyfleoedd ydych chi'n eu rhagweld i ddatblygu cynlluniau TWE mewn cysylltiad â rheoli dŵr yng Nghymru? Beth ydych chi'n credu y dylai Llywodraeth Cymru ei wneud i ddatblygu'r cynlluniau hyn?

Yn ein hymateb i Bapur Gwyn Bil yr Amgylchedd, nodwn yn fanwl ein safbwynt o ran cynlluniau Talu am Wasanaethau Ecosystemau:

Cefnogwn y gwaith o ddatblygu cynlluniau Talu am Wasanaethau Ecosystemau (TWE). Credwn hefyd y dylid gwneud mwy na dim ond 'ail-becynnu' mentrau sy'n bodoli eisoes wrth ddatblygu marchnadoedd ar gyfer TWE, ac y dylid ysgogi arloesedd a chyfleoedd newydd, gan gyflwyno mathau newydd o wasanaethau ecosystemau a chyfranogwyr newydd i'r farchnad.

Cytunwn fod gan Cyfoeth Naturiol Cymru rôl bwysig i'w chwarae wrth ddatblygu marchnadoedd ar gyfer gwasanaethau ecosystemau ac edrychwn ymlaen at weithio gyda Llywodraeth Cymru i egluro rolau hwylusydd, brocer ac achredwr. At hynny, nid yw'r Papur Gwyn yn cyfeirio at reoleiddio'r farchnad. Awgrymwn felly y dylid rhoi ystyriaeth bellach i p'un a ddylid pennu rheoleiddiwr ar gyfer y farchnad ac, os felly, pwy fyddai yn y sefyllfa orau i ymgymryd â'r rôl hon.

Bydd yn bwysig egluro'r rolau hyn a datblygu'r strwythurau a'r sefydliadau sydd

eu hangen i gefnogi ac ysgogi'r gwaith o ddatblygu marchnadoedd TWE sy'n gweithredu'n effeithiol, y gall prynwyr, gwerthwyr a'r cyhoedd ymddiried ynddynt. O gofio nad oes gennym lawer o brofiad o TWE yn gyffredinol, bydd hefyd yn bwysig ystyried profiadau eraill yn y DU ac yn rhyngwladol yn y maes hwn er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu'r fframwaith yng Nghymru yn y dyfodol.

Un opsiwn fyddai defnyddio'r dulliau arloesol y cyfeiriwyd atynt yng nghynnig NRM7 (pwerau Cyfoeth Naturiol Cymru i gynnal cynlluniau arbrolfol) er mwyn cael profiad gwirioneddol o gynllun TWE ar waith, a helpu i ddiffinio rolau hwylusydd, brocer, achredydd ac o bosibl reoleiddiwr y farchnad. Byddai Cyfoeth Naturiol Cymru yn fwy na pharod i gymryd rhan mewn unrhyw gynlluniau o'r fath.

Efallai nad Cyfoeth Naturiol Cymru yw'r corff mwyaf priodol i gyflawni'r rolau hyn, oherwydd achosion posibl o wrthdaro buddiannau yn deillio o'n hawydd i chwarae rhan weithredol yn y farchnad TWE ei hun. Os yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu buddsoddi mewn unrhyw un o'r rolau hyn yn Cyfoeth Naturiol Cymru, byddai angen rhoi strwythurau llywodraethu ar waith o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn osgoi achosion o wrthdaro buddiannau, wedi'u hategu gan ddeddfwriaeth briodol yn ôl yr angen. Mae'n hollbwysig sicrhau na cheir canfyddiad o wrthdaro buddiannau a fyddai'n tanseilio hyder y cyhoedd yn y farchnad TWE. Mae hyn yn arbennig o wir o gofio'r rôl bwysig y gallai TWE ei chwarae wrth ariannu a chynnal a chadw gwasanaethau ecosystemau yn y dyfodol.

Megis dechrau y mae meddylfryd ac arfer ym maes TWE, felly byddai unrhyw rolau y byddai Cyfoeth Naturiol Cymru - neu yn wir unrhyw gorff arall - yn ymgymryd â hwy mewn perthynas â marchnadoedd TWE yn arwain at oblygiadau o ran adnoddau i'r sefydliad(au) dan sylw yn nhermau capasiti a gallu. Byddem yn croesawu trafodaethau pellach â Llywodraeth Cymru am unrhyw rolau y dylai Cyfoeth Naturiol Cymru ymgymryd â hwy yn ei barn hi.

Credwn ei bod yn bwysig bod y cysyniad ehangach o TWE yn ceisio cynnwys 'tryloywder o ran cyfanswm y gost' a chroesawn y cyfle i weithio gyda Llywodraeth Cymru i ystyried sut y gellid gwneud hyn. Credwn hefyd ei bod yn bwysig cydnabod nad yw defnyddwyr presennol gwasanaethau ecosystemau yn talu amdanynt. Yn lle hynny, gadewir y gost i genedlaethau'r dyfodol a phwrs y wlad.

O ran rheoli dŵr yng Nghymru, credwn y gellid defnyddio TWE i ddatrys nifer o broblemau o ran ansawdd dŵr, llifogydd ac adnoddau dŵr. Er enghraifft, mewn cronfeydd cyflenwi dŵr cyhoeddus, gellid talu rheolwyr i newid eu harferion o fewn dalgyloch y gronfa ddŵr. Byddai hyn yn gwella ansawdd y dŵr yn y gronfa a thrwy hynny'n lleihau costau trin dŵr. Mae cwmni Wessex Water eisoes wedi mabwysiadu'r dull gweithredu hwn yn rhai o'i gronfeydd cyflenwi dŵr cyhoeddus. Mae hefyd wedi digolledu rheolwyr tir am leihau'r defnydd o wrtaith gerllaw rhai o'i ddyfrdyllau cyflenwi er mwyn gostwng lefelau nitrad

Croesawn drafodaethau pellach â Llywodraeth Cymru am ddatblygu cynlluniau TWE yng Nghymru a chynlluniau cymhelliant eraill.

5. Beth arall y gallwn ei wneud er mwyn gwneud y defnydd gorau o'n dŵr, yn arbennig yn nhermau cefnogi ein hagenda ar gyfer twf gwyrdd?

Credwn fod marchnad arbenigol yma yng Nghymru.

Er enghraifft, drwy ddatblygu adnoddau a thechnegau i wneud defnydd effeithiol o ddŵr ym mhob sector a thrwy ddeall y cysyniad o TWE, caiff cyfleoedd

arloesol newydd eu creu i ddiwydiant yng Nghymru. Gellir gwneud hyn nid yn unig drwy ddarparu'r sgiliau i ddatblygu'r dulliau gweithredu arloesol hyn, ond hefyd drwy sicrhau bod diwydiant ac amaeth yng Nghymru ar flaen o gad o ran gwneud defnydd effeithiol o ddŵr. O ganlyniad, bydd costau cynhyrchu yn lleihau. Bydd marchnadoedd newydd hefyd yn datblygu gan ddefnyddio'r sgiliau hyn i ddarparu sector newydd i ddiwydiant yng Nghymru. At hynny, byddai datblygu "canolfannau" diwydiannol effeithlon yng Nghymru yn gosod yr agenda i ddiwydiannau eraill symud i Gymru er mwyn manteisio ar y dulliau gweithredu hyn. Bydd cyfleoedd hefyd i gwmnïau o Gymru allforio eu harbenigedd. Nododd Cynhadledd 2014 Dŵr Cymru a gynhaliwyd yn ddiweddar nifer o gwmnïau yng Nghymru sydd eisoes yn hyrwyddo cynhyrchion i'w defnyddio gan y sector dŵr.

Yn fwy cyffredinol, credwn hefyd y byddai'n werth datblygu cysylltiadau gwell rhwng gwaith cynllunio'r gylchred ddŵr, Cynlluniau Datblygu Lleol a gwaith cynllunio datblygiad a chylch Cynllunio Rheoli Asedau cwmni dŵr. Gweler hefyd ein hymateb i gwestiwn 10 ac 11 isod.

Gweithredu i Leihau Llygredd

6. Ydych chi'n cytuno â'n ffocws ar lygredd gwasgaredig? Os nad ydych, esboniwch pam.

Ydym, rydym yn cytuno â'r ffocws ar lygredd gwasgaredig.

O ystyried y rheolaeth gynyddol dros ollyngiadau yn y tarddle, mae llygredd gwasgaredig bellach yn broblem fawr sy'n dod i'r amlwg sy'n arwain at fethiannau corff dŵr o dan y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr ac yn effeithio ar safleoedd a warchodir yn yr amgylcheddau tirol a morol. Yn anffodus, nid oes llawer o fusnesau a phobl yn ymwybodol o hyd o'r problemau sy'n gysylltiedig â llygredd gwasgaredig a'u rôl wrth fynd i'r afael ag ef. Mae angen adolygu a diweddarau'r canllawiau amrywiol sy'n bodoli ar atal llygredd gwasgaredig, ac i ddefnyddio technegau mwy modern i'w lledaenu i'r gynulleidfa darged.

Mae dogfen Cyfoeth Naturiol Cymru ar lygredd dŵr gwasgaredig y cyfeiriwyd ati yn y testun yn nodi'r sectorau allweddol sy'n gyfrifol am lygredd dŵr gwasgaredig a'r materion y bydd angen mynd i'r afael â hwy. Er mwyn cyflawni canlyniadau parhaus, i ddechrau, mae angen i ni ddarparu sail dystiolaeth gadarn a fydd yn galluogi dadleuon grymus wrth gydweithio ar ddatrysiadau â'r sectorau cyfrifol. Bydd y dystiolaeth hon yn gosod y sylfeini ar gyfer gwneud cynnydd ac, ochr yn ochr â chymorth gan bartneriaid, yn arwain at ddatrysiadau amgen arloesol yn ogystal â chynnal ymyriadau llwyddiannus a brofwyd.

Nodwn fod y ffocws ar fynd i'r afael â llygredd gwasgaredig wedi'i dargedu'n drwm at Cyfoeth Naturiol Cymru, a'i rôl fel rheoleiddiwr. Ar adeg o galedi a lleihad mewn adnoddau, rydym yn annog y defnydd o bartneriaethau ac addysg ochr yn ochr â'n pwerau a'n dyletswyddau presennol.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cefnogi'n gryf y gwaith o gyflwyno Rheolau Rhwymo Cyffredinol mewn meysydd lle y dengys ein tystiolaeth fod arfer gwael, y tu hwnt i reoliadau cyfredol, yn achosi llygredd gwasgaredig. Mae amrywiaeth o arferion rheoli tir gwael mewn ardaloedd gwledig yn peri pryder penodol. Mae gan fframwaith rheoleiddio sy'n croesawu rheolau rhwymo cyffredinol y potensial i sicrhau cydraddoldeb a chymesuredd wrth reoleiddio arferion gwael cymharol ddibwys ond eang sy'n effeithio ar ansawdd ein cyrff dŵr. Cred Cyfoeth Naturiol Cymru y dylid cyflwyno rheolau rhwymo cyffredinol er mwyn cynnal elfennau allweddol o arfer da.

7. A oes unrhyw broblemau llygredd ychwanegol y credwch y dylem eu nodi? Os felly, pa gamau gweithredu ydych chi'n credu sydd eu hangen?

Mae angen i'r problemau llygredd sy'n gysylltiedig â mwyngloddiau metel segur gael eu cydnabod yn y strategaeth. Edrychwn ymlaen at barhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r broblem fawr a chostus iawn hon o ran etifeddiaeth.

Mae asideiddio o ddyddodiad atmosfferig yn parhau i gael effaith ar ein hafonydd ucheldirol, ein llynnoedd ac ecosystemau tirol. Er bod allyriadau sylffwr wedi lleihau 90% dros yr ugain mlynedd diwethaf, nid yw allyriadau nitrogen wedi lleihau cymaint. Y rheswm am hyn yw y daw allyriadau nitrogen yn bennaf o ffynonellau gwasgareddig, gydag allyriadau trafndiaeth yn enghraifft nodedig. Gan gydnabod effaith andwyol rhai arferion coedwigaeth ar asideiddio, rydym wedi mabwysiadu'r defnydd o'r *canllaw ar reoli coedwigaeth mewn dalgylchoedd wedi'u hasideiddio* yn ein gweithrediadau ein hunain, a hefyd drwy ein rôl fel rheoleiddiwr gyda gweithredwyr coedwigoedd eraill. Mae rheoli ucheldiroedd i'w galluogi i wrthsefyll effeithiau asideiddio yn well, er enghraifft drwy lenwi hen gripiâu draenio ar fawndiroedd, hefyd yn helpu i liniaru llifoedd.

Croesawn hefyd y cyfle i weithio gyda Llywodraeth Cymru ar Godau Ymarfer Da ar gyfer Tanwydd ac Olewau (eu defnyddio a'u storio), a phrosesau amgylcheddol a diwydiannol cyffredinol.

Ar ôl cofrestru dros 53,000 o systemau trin carthffosiaeth preifat yng Nghymru ers 2011, mae gennym bryderon ynghylch ansawdd y gwaith o osod cyfarpar o'r fath a'u cynnal a'u cadw. Lle y caiff systemau o'r fath eu gosod a'u cynnal a'u cadw'n wael, gallant beri risg o halogi, ac effeithiau iechyd dilynol, i gyflenwadau dŵr yfed a chysiau dŵr cyfagos. Rydym wedi llunio canllawiau i berchenogion tanciau septig, ond byddai'n ddefnyddiol mynd i'r afael â'r broblem drwy gynnwys y diwydiant sy'n cynnal a chadw'r systemau ac yn eu gosod, er mwyn sicrhau eu bod yn gweithredu'n unol â safonau ansawdd penodol. Felly, dylai'r Strategaeth Dŵr annog mentrau o'r fath, gan annog cwmnïau preifat a'u cyrff cynrychioliadol i weithio'n agos gyda'r rheoleiddwyr er mwyn gwella perfformiad systemau carthffosiaeth preifat yn y dyfodol.

Dangosodd y gwaith ar gofrestru tanciau septig hefyd fod angen helpu rhai perchenogion tai i wella eu systemau carthffosiaeth presennol neu osod rhai newydd yn eu lle. I rai cartrefi, efallai nad yw hyn yn fforddiadwy. Er mwyn atal niwed i'r amgylchedd, gall rhywfaint o gymorth gan Lywodraeth Cymru helpu.

Mae llygredd o orlifoedd dŵr storm a thrawsgysylltiadau a chysylltiadau cymysg yn parhau i fod yn broblem ac edrychwn ymlaen at weithio gyda Llywodraeth Cymru a'r cwmnïau dŵr i ddarparu atebion arloesol i'r problemau hyn. Mae llawer o'r problemau hyn yn digwydd pan fydd eiddo'n cael ei foderneiddio a'i wella. Gallai sicrhau dealltwriaeth well o effeithiau camgysylltiadau ymhlith penseiri, adeiladwyr perchenogion tai a chynllunwyr leihau'r risg.

Mae rhai cemegau a gyflwynir am eu bod o fudd i bobl, gan gynnwys cemegau gwrth-fflam a chynhyrchion fferyllol, yn cael eu canfod yn gynyddol mewn carthffosiaeth. Ni ellir trin pob un o'r rhain yn hawdd â dulliau trin carthffosiaeth traddodiadol, ac mae eu heffeithiau ar ecoleg dŵr yr amgylchedd dŵr yn aml yn aneglur. Mae ymchwil i'w heffeithiau yn mynd rhagddi ac edrychwn ymlaen at weithio gyda Llywodraeth Cymru er mwyn mynd i'r afael â'r broblem hon sy'n dod i'r amlwg.

Er iddo gael ei wahardd fel dip defaid yn 2006 oherwydd ei wenwyndra aciwt i anifeiliaid dŵr di-asgwrn-cefn, mae cypermethrin yn parhau i gael ei ddefnyddio i drin coed ifanc fel mater o drefn er mwyn rheoli Gwiddonyn Pinwydden. Mae

hefyd yn gynhwysyn gweithredol mewn rhai meddyginiaethau, er enghraifft i drin llau pen. Mae wedi'i gynnwys ar restr y Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd o sylweddau peryglus, ond mae rhanddirymiad yn bodoli eisoes a ymestynnwyd yn ddiweddar. Mae gwaith yn mynd rhagddo i nodi rheolaethau amgen yn lle defnyddio cypermethrin, ac mae ei ddefnydd ar ystâd Llywodraeth Cymru wrthi'n cael ei adolygu ar hyn o bryd.

8. Ydych chi'n cytuno â chwmpas y gweithgareddau ar gyfer y Rheolau Rhwymol Cyffredinol, fel y'u nodir?

Yn ein hymateb i Bapur Gwyn Bil yr Amgylchedd, gwnaethom nodi'n fanwl ein safbwynt ar gwmpas Rheolau Rhwymo Cyffredinol:

Byddai cyflwyno Rheolau Rhwymo Cyffredinol yn llenwi bwlch mewn fframweithiau rheoleiddio sy'n canolbwyntio ar y sector gan olygu bod modd ymdrin â gweithgareddau â llai o risg mewn ffordd fwy cymesur. Os cânt eu defnyddio'n briodol, gall rheolau rhwymo cyffredinol leihau'r baich ar fusnesau ac unigolion heb ostwng safonau wrth ddiogelu'r amgylchedd. Mae gennym eisoes rywfaint o brofiad o reolau rhwymo cyffredinol ar draws nifer o gyfundrefnau rheoliadol, er enghraifft, trwyddedau rheolau safonol o dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol.

Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru ddata sy'n dangos bod graddau arferion rheoli tir gwael yng Nghymru wedi golygu bod nifer sylweddol o gyrff dŵr yn methu â chyrraedd y safonau sy'n ofynnol gan y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr. Credwn y byddai cyflwyno rheolau rhwymo cyffredinol sy'n mynd i'r afael ag arferion gwael a arsylwyd yn golygu bod angen i reolwyr tir fabwysiadu arferion rheoli tir mwy cynaliadwy, a helpu i gyflawni canlyniadau amgylcheddol allweddol.

Er mwyn sicrhau bod rheolau rhwymo cyffredinol yn llwyddo i gyflawni canlyniadau amgylcheddol ac yn helpu rheolwyr tir i fabwysiadu arfer da, dylai pob rheol rhwymo cyffredinol gael ei hategu gan ganllawiau cynhwysfawr sydd ar gael yn hawdd. Byddai angen i reolau rhwymo cyffredinol hefyd gydnabod neu ddefnyddio fframweithiau arfer gorau sefydledig er mwyn osgoi tanseilio'r rhain ac achosi gwrthdaro neu ddryswch.

Byddai Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn ceisio defnyddio rheolau rhwymo cyffredinol i ategu a chefnogi systemau eraill fel cytundebau rheoli, talu am wasanaethau ecosystemau, cytundebau partneriaeth a rheoliadau trawsgydymffurfio ac ochr yn ochr â'r systemau hynny (lle mae derbyn y Taliad Sengl yn dibynnu ar gydymffurfio â safonau penodol gan gynnwys mewn perthynas â diogelu'r amgylchedd), yn ogystal â thrwyddedau a chaniatadau mwy traddodiadol.

9. Ydych chi'n cytuno mai cosbau ariannol amrywiadwy yw'r ffordd orau i Cyfoeth Naturiol Cymru orfodi'r rheolau rhwymol cyffredinol?

Ydym, ond rhaid i ni fod yn siŵr bod y ddirwy yn addas ar gyfer y drosedd. Er enghraifft, gall gostio miloedd ar filoedd o bunnoedd i drwsio tanc septig a adeiladwyd yn wael ac sy'n gweithredu'n wael, ac efallai na fydd dirwyon bach yn ddigon i ennyn yr ymateb gofynnol gan y gweithredwr.

Gwella'r ffordd rydym yn cynllunio ac yn rheoli ein gwasanaethau dŵr

10. Ydych chi'n cytuno â'r egwyddor o alinio'r Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr a'r Cynllun Sychder gyda'r Cylch Cynllunio Rheoli Asedau?

Cytunwn â'r egwyddor o alinio Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr a Chynlluniau Sychder gyda'r cylch Cynllunio Rheoli Asedau. Mae hyn yn hanfodol gan mai cynlluniau busnes Cynllunio Rheoli Asedau yw'r prif lwybr ariannu i gwmnïau dŵr sicrhau buddsoddiad o safbwynt cyflenwi dŵr, ac, o brofiad, gall cynlluniau anghyson achosi problemau i gwmnïau dŵr wrth geisio sicrhau buddsoddiad amserol drwy Ofwat er mwyn mynd i'r afael a phwysau o ran y cyflenwad a'r

galw. Mae hyn wedi creu problemau i ni wrth geisio mynd i'r afael a phroblemau'n ymwneud a dulliau tynnu dŵr anghynladwy yn unol ag amserlenni statudol.

Croesawn y cymal diweddar yn Neddf Dŵr 2014 sy'n gosod y gwaith o lunio Cynllun Sychder ar yr un cylch pum mlynedd â Chynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr a chynlluniau busnes Cynllunio Rheoli Asedau.

Credwn y gellid sicrhau buddiannau pellach drwy alinio'r cynlluniau hyn â Fframwaith Polisi arfaethedig Cyfoeth Naturiol Cymru, er mwyn sicrhau buddiannau gwirioneddol mewn perthynas â chynnwys rhanddeiliaid, osgoi dryswch ar y camau ymgynghori, ac o bosibl integreiddio â gweithgareddau ymgynghori a dulliau cyflawni eraill.

Er ein bod yn cytuno mewn egwyddor ag alinio'r cynlluniau, byddai gennym rai amheuan pe bai bwriad i gyfuno Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr a Chynlluniau Sychder yn gynllun unigol. Gwerthfawrogwn efallai bod hyn yn cynnig dull gweithredu mwy cydgysylltiedig a thryloyw i gwsmeriaid a rhanddeiliaid yn ôl pob golwg, fodd bynnag, mewn gwirionedd, mae dibenion y ddau gynllun yn wahanol iawn. Cynllun strategol hirdymor yw'r Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr i ragweld a rheoli'r cyflenwad a'r galw dros gyfnod cynllunio o 25 mlynedd. Mae'n ystyried y pwysau a all effeithio ar y cyflenwad a'r galw dros y cyfnod, fel twf yn y boblogaeth a newid yn yr hinsawdd. Cynllun gweithredol yw'r Cynllun Sychder sy'n nodi'r camau gweithredu y bydd cwmnïau yn eu cymryd i reoli'r cyflenwad a'r galw ar adegau o sychder, gan gydbwysu anghenion defnyddwyr, busnesau a'r amgylchedd.

O ystyried eu dibenion gwahanol, ni chredwn y bydd paratoi cynllun unigol yn cynnig llawer o fudd i gwmnïau dŵr o ran effeithlonrwydd prosesau, nac ychwaith i Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhinwedd ein swydd fel cyngorydd i Lywodraeth Cymru ar gynnwys technegol y cynllun. I'r gwrthwyneb, rydym yn pryderu y gall yr adnoddau a'r sgiliau sydd eu hangen i gyfuno elfennau'r Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr a'r Cynlluniau Sychder arwain at broblemau o ran llwyth gwaith neu gostau ychwanegol i'r cwmnïau dŵr, ac i Cyfoeth Naturiol Cymru, ac y gallent o bosibl leihau ansawdd y cynllun(iau).

11. Ydych chi'n cytuno bod angen gwella ein cynlluniau ar gyfer rheoli dŵr gwastraff a charthffosiaeth yn yr hirdymor?

Ydym, mae gennym eisoes enghreifftiau lle mae diffyg darpariaeth trin dŵr gwastraff a charthffosiaeth yn rhwystro datblygiad, gan arwain at effeithiau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Ochr yn ochr â datblygu atebion arloesol i broblemau trin dŵr, credwn ei bod yn hollbwysig cynllunio gwasanaethau dŵr gwastraff a charthffosiaeth, gan sicrhau bod y cysylltiadau priodol wedi'u gwneud â gwaith cynllunio defnydd tir a'r Bil Cynllunio. Bydd hyn yn sicrhau y caiff y manau cywir eu datblygu, lle mae gwasanaethau a chapasiti ar gael, ac y caiff darpariaethau eu cynllunio'n briodol ymlaen llaw.

Heb y cynlluniau hyn, bydd risg barhaus y bydd systemau dŵr gwastraff a charthffosiaeth yn cyfyngu ar ddatblygu cynaliadwy a thwf.

Byddem hefyd yn hyrwyddo deialog ar gyfeiriad gwaith trin a gwaredu dŵr gwastraff yn y dyfodol yng Nghymru. Dros y degawdau diwethaf, gwelwyd newid o waith trin lleol i waith trin a'r raddfa fwy, yn aml i ddyfroedd arfordirol neu aberol. Llywiwyd hyn gan y gofyniad i gydymffurfio â chyfarwydddebau ansawdd Ewropeaidd, ynghyd â'r costeffeithlonrwydd a gynigir gan waith trin ar raddfa fawr. Fel rhan o ddull gweithredu ar sail dalgylch, credwn y dylid ystyried trin dŵr gwastraff yn lleol oherwydd gallai helpu i reoli dŵr mewn ffordd gynaliadwy. Er

enghraifft, gall gwaith trin lleol leihau costau ynni a charbon yn sylweddol, a sicrhau y caiff llifau afonydd eu cynnal yn agosach at lefelau arferol. Gyda rhagolygon hinsawdd UKCP09 yn rhagweld y bydd llawer mwy o gyfnodau llif isel yn ein hafonydd yn y dyfodol, gallai gwaith trin lleol a dychwelyd elifion i gyrsiau dŵr fod yn ffordd gosteifeithiol o gynnal ecosystemau gwyrdd. Byddem yn croesawu'r cyfle i weithio gyda Llywodraeth Cymru a Chwmnïau Dŵr er mwyn ystyried dichonoldeb a buddiannau posibl gwaith trin lleol.

Hoffem weld gwaith cynllunio hirdymor (25 mlynedd) yn dod yn arfer cyffredin ar gyfer pob mater ym maes dŵr, o ran adnoddau ac ansawdd. Dylai hyn fynd law yn llaw â rhaglenni addysgol er mwyn gwella dealltwriaeth cwsmeriaid o'r gwerth gwirioneddol, y cyfeintiau a'r costau sy'n gysylltiedig â darpariaethau dŵr a dŵr gwastraff a'r defnydd ohonynt.

12. Sut y gallwn ni sicrhau bod cynlluniau Cwmnïau Dŵr yn cysylltu â chynlluniau rheoli adnoddau naturiol ehangach? Beth yw eich barn ar sut y dylid cyflwyno hyn?

Credwn y dylai proses fframwaith y Polisi Adnoddau Naturiol bennu cyfeiriad lefel uchel pob cynllun sector, gan gynnwys cynlluniau cwmnïau dŵr. Er mwyn i hyn ddigwydd, rhaid i ni sicrhau bod yr amserlenni ar gyfer y cylchoedd cynllunio hyn yn cael eu llunio'n briodol er mwyn osgoi rhai o'r problemau a godwyd uchod yn ein hymateb i gwestiwn 10 uchod.

Mae'n bwysig hefyd ystyried mai dim ond un gyfres o gynlluniau yw cynlluniau cwmnïau dŵr, a rhaid i'r broses o'u halinio â'r fframwaith polisi rheoli adnoddau naturiol ystyried pob cynllun a strategaeth arall. Ar hyn o bryd, ceir amserlenni gwahanol ar gyfer llawer o'r cynlluniau a'r strategaethau a ddefnyddir i reoli dŵr. Er enghraifft, mae Cynlluniau Rheoli Basn Afon o dan y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr yn gweithio ar broses adolygu chwe blynedd; cylch adrodd ac adolygu tair blynedd a geir ar gyfer cynlluniau morol o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir; a'r cyfnod adolygu a ddisgwylir ar gyfer y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol arfaethedig i Gymru yw pum mlynedd. Mae cynlluniau cwmnïau dŵr a chynlluniau sychder yn gweithio ar gylch adolygu pum mlynedd. Mae angen ystyried y mater hwn ymhellach a chroesawn y cyfle i weithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod yr amserlenni'n cydweithio mor effeithiol ac effeithlon â phosibl.

Rhaid i ni hefyd sicrhau y caiff pob parti ei gynnwys yn briodol wrth ddatblygu pob cynllun, Bydd hyn yn sicrhau y manteisir i'r eithaf ar y broses o integreiddio'r cynlluniau hyn ac na chaiff drysau eu cau ar grwpiau penodol. Er enghraifft, dylai cynllun adnoddau naturiol ar raddfa dalgylch sy'n ceisio rheoli llifogydd drwy wella mawnogydd ystyried yr effaith y gall hyn ei chael ar ansawdd dŵr ac felly'r effaith ar waith cynllunio asedau cwmni dŵr ar gyfer y dyfodol er mwyn sicrhau y gall ddarparu dŵr yfed derbyniol i'w gwsmeriaid.

13. Ydych chi'n cytuno â'r cynigion i annog defnydd mwy effeithlon o ddŵr? A oes yna unrhyw gamau gweithredu pellach y gallwn eu cymryd?

Oes, mae effeithlonrwydd dŵr yn ffactor ysgogi allweddol a allai alluogi Cymru i greu marchnadoedd newydd ac ennill statws clir fel gwlad sy'n gwerthfawrogi ei hadnoddau naturiol.

Fodd bynnag, rhaid i'r strategaeth gydnabod nad mater i gartrefi yn unig yw effeithlonrwydd dŵr. Mae'r mwyafrif helaeth o'r dŵr a ddefnyddir gennym yn gysylltiedig â'r bwyd a fwytawn, y cynhyrchion a ddefnyddiwn a'r gwasanaethau a gawn. Mae'r ffigurau a gyhoeddwyd gan y Gronfa Natur Fyd-eang ar gyfanswm y dŵr sydd ei angen i gefnogi'r holl nwyddau a gwasanaethau rydym

am eu cael, fesul pen y dydd yn y DU, oddeutu 4,600 o litrau, a chaiff tua 150 o litrau o'r cyfanswm hwnnw eu defnyddio mewn cartrefi¹. Felly, credwn y dylai'r Strategaeth hyrwyddo effeithlonrwydd dŵr yn yr ystyr ehangaf, lle y defnyddir cyflenwadau dŵr cyhoeddus. Er enghraifft, yn y diwydiant gwasanaeth, gellir arbed dŵr mewn diwydiannau gwasanaethau fel siopau trin gwallt, caffis, cyfleusterau chwaraeon a gwestai.

At hynny, yn y sector amaethyddol a'r sectorau diwydiannol y gwelwyd rhai o'r arbedion mwyaf ac sy'n cynnig y budd economaidd mwyaf drwy ddilyn agenda effeithlonrwydd. Yma, mae gwaith ymchwil eisoes wedi nodi bod arferion effeithlonrwydd dŵr yn hawdd eu sefydlu a'u bod yn cynnig elw o fuddsoddiad yn aml mewn misoedd. Daw arbedion o ddefnyddio llai o ddŵr, llif elifion llai a biliau ynni llai gan fod llif llai o ddŵr yn golygu bod angen gwresogi a phwmpio llai o ddŵr. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru eisoes wedi profi'r dull o gyfateb llif o ddŵr ac elifion â'r allbwn a gynhyrchir. Dylai'r Strategaeth hon nodi'r dull gweithredu hwn fel ffactor ysgogi allweddol o ran creu diwydiant a sector amaethyddol ecologyfeillgar effeithlon i Gymru.

Drwy bennu'r agenda hon yng Nghymru gellid creu marchnad arbenigol newydd i ddiwydiant yng Nghymru a marchnad gartref sy'n galluogi cwmnïau i feithrin sgiliau y gellid wedyn eu marchnata mewn mannau eraill. Gall hefyd ddenu cwmnïau i Gymru oherwydd y manteision y gallai effeithlonrwydd dŵr eu cynnig iddynt o ran lleihau costau ac o safbwynt marchnata (gweler ein hymateb i gwestiwn 14 isod).

Teimlwn hefyd y gellid ymestyn y ffocws ar effeithlonrwydd dŵr i ystyried y cysylltiadau ag ynni. Mae hyd at 80% o filiau ynni cartref yn deillio o wresogi dŵr. Mae gan fesurau effeithlonrwydd dŵr ac ynni gyda'i gilydd y potensial yng Nghymru i fynd i'r afael â thlodi ehangach a phroblemau'n ymwneud â chostau byw.

Edrychwn ymlaen at weithio gyda Llywodraeth Cymru er mwyn nodi'r ffordd fwyaf effeithiol y gall Cyfoeth Naturiol Cymru hyrwyddo effeithlonrwydd dŵr drwy ei gweithgareddau rheoleiddiol ac addysgol.

14. Ydych chi'n cytuno â'n hymagwedd ar gyfer mesuryddion? Pa ffactorau eraill y dylem eu hystyried?

Gall mesuryddion fod yn ffordd allweddol o feithrin dealltwriaeth well o'r dŵr a ddefnyddir a gwerth dŵr. Hefyd, defnydd cyfeintiol yw'r ffordd decaf, mewn egwyddor, o godi tâl am ddŵr.

Fodd bynnag, hoffem nodi bod mesur faint o ddŵr a ddefnyddir gan ddiwydiant yn arfer cyffredin, ac y gall diwydiant fod yn wastrafflyd o hyd. Rhaid i ni gofio efallai na fydd mesuryddion yn arwain at ddefnyddio llai o ddŵr, fel y gellid ei ddisgwyl. Felly, byddem yn hyrwyddo mentrau eraill ar y cyd â mesuryddion er mwyn sicrhau bod pob sector yn gwerthfawrogi dŵr ac yn ceisio ei ddefnyddio'n effeithlon. O brofiad, gall argaeledd adnoddau yn aml ysgogi defnydd effeithlon o ddŵr yn hytrach na chodi tâl am faint o dŵr a ddefnyddir. Er enghraifft, mae Tata Steel ym Mhort Talbot a melin bapur Georgia-Pacific ger Pen-y-bont ar Ogwr wedi defnyddio technoleg effeithlonrwydd dŵr i leihau faint o ddŵr a ddefnyddir oherwydd materion yn ymwneud ag argaeledd adnoddau a ffactorau ysgogi amgylcheddol.

Byddem yn annog y defnydd o dariffau a mesuryddion deallus fel ffordd o roi mwy o reolaeth a gwybodaeth i gwsmeriaid, boed yn berchenogion cartrefi, yn

gwsmeriaid diwydiannol neu'n gwsmeriaid masnachol, er mwyn eu galluogi i wneud dewisiadau o ran eu defnydd o ddŵr.

15. Ydych chi'n cytuno â'r ymagwedd hon ar gyfer rheoli gollyngiadau? A oes ffyrdd y gallwn sicrhau bod gollyngiadau yn cael eu lleihau mewn ffordd gynaliadwy?

Cytunwn â'r dull a nodir yn y Strategaeth ar gyfer rheoli gollyngiadau. Fodd bynnag, ni ddylem dybio mai mater i gwmnïau dŵr yn unig yw hwn, ond un i'r sector defnydd dŵr cyfan. Byddwn yn parhau i ddefnyddio ein pwerau rheoleiddio i hyrwyddo defnydd effeithlon o ddŵr, gan gynnwys lleihau gollyngiadau. Daw technegau newydd i'r amlwg lle y bydd cost lleihau gollyngiadau'n llai na datblygu ffynonellau dŵr newydd. Fodd bynnag, efallai y caiff hyn ei lesteirio os bydd dŵr yn parhau'n adnodd cymharol rhad.

Yn yr un modd, mae'r mater yn ymwneud â newid cymdeithasol a gwleidyddol a all wynebu llai o reoleiddio ac felly greu amodau lle y caniateir i nifer y gollyngiadau gynyddu. Felly, er mwyn sicrhau lefelau cynaliadwy o ollyngiadau, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod cymhellion digonol ar waith i'r rheini sy'n berchen ar asedau i'w hannog i leihau nifer y gollyngiadau i lefelau darbodus. Bydd angen cydbwysu hyn â dulliau rheoleiddio briodol.

Fforddiadwyedd dŵr a darparu gwasanaethau gwych i gwsmeriaid

16. Sut y gallwn sicrhau bod arfer gorau yn cael ei rannu ar draws y diwydiant dŵr, er mwyn sicrhau bod atebion arloesol, sy'n mynd i'r afael â phroblemau tloedi dŵr, yn cael eu rhannu gydag eraill?

Credwn fod rhannu arfer gorau rhwng cwmnïau dŵr wedi bod yn gymharol effeithiol, yn enwedig drwy sefydliad ymchwil y diwydiant, UKWIR.

Efallai fod sicrhau y caiff y diwydiant dŵr y fframwaith, y cymhellion a'r dulliau diogelu angenrheidiol i dreialu dulliau gweithredu arloesol mewn amgylchedd cymharol di-risg yn fater mwy. Byddem yn annog Llywodraeth Cymru i weithio gydag Ofwat a rheoleiddwyr eraill yn y diwydiant dŵr er mwyn ystyried sut y gellid datblygu fframwaith o'r fath.

Er mwyn sicrhau arloesedd ar draws y diwydiant dŵr, galwn am system reoleiddio mwy hyblyg ac ystwyth. Croesawn y cyfle i weithio gyda Llywodraeth Cymru ar newidiadau deddfwriaethol yn y dyfodol, gan gynnwys diwygio tynnu dŵr.

17. A ydym ni wedi nodi'r materion a'r camau gweithredu allweddol mewn cysylltiad â fforddiadwyedd dŵr?

Credwn fod y materion allweddol o ran fforddiadwyedd dŵr wedi'u trafod. Fodd bynnag, gall biliâu dŵr fod yn elfen fawr o gostau cartrefi a busnesau masnachol. Gwarantir rhagor o waith ar dariffau a ffyrdd o leihau costau (gweler 18 isod).

Credwn hefyd fod y ffocws presennol yn gyfan gwbl ar gwsmeriaid cwmnïau dŵr. Ceir materion i'r rheini sydd â chyflenwad dŵr a seilwaith trin preifat, yn enwedig lle mae'r cyflenwad neu'r gwaith gwaredu elfion yn amhriodol a lle y bydd angen buddsoddiad sylweddol i'w gwella. Efallai mai dim ond i nifer fach o eiddo y mae hyn yn berthnasol ond dylid rhoi sylw iddo serch hynny.

18. A oes unrhyw ymagweddau eraill y gallwn eu mabwysiadu er mwyn cefnogi anghenion cwsmeriaid domestig a busnes?

Mae'r busnesau a'r cartrefi hynny sydd ag incymau llai yn wynebu pwysau ychwanegol sy'n eu hatal rhag mabwysiadu dulliau arbed dŵr. Er mwyn galluogi'r grwpiau hyn i fabwysiadu ffyrdd effeithlon o ddefnyddio dŵr, efallai y bydd angen cymhellion ariannol neu gymhellion eraill i osod cyfarpar a newid eu hymddygiad. Er enghraifft, rydym wedi helpu ffermwyr llaeth i leihau faint o ddŵr a ddefnyddir o'r prif gyflenwad drwy gasglu dŵr glaw i ddyfrio stoc. Mae hyn

wedi cynnig y fantais ychwanegol o leihau'r risg o lygredd oherwydd byddai'r glaw wedi ychwanegu at storfeydd slyri yn flaenorol ac wedi cynyddu'r risg o lygredd.

Diogelu a Gwella Ansawdd Dŵr Yfed

19. A oes unrhyw faterion ychwanegol ynglŷn ag ansawdd dŵr yfed y dylem eu hystyried? Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i ymchwilio i drosglwyddo pibellau cyflenwi dŵr i'r cwmnïau dŵr?

Credwn fod angen meithrin dealltwriaeth well o faterion ansawdd dŵr mewn cyflenwadau dŵr preifat. Mae'r materion hyn yn aml yn ymwneud ag arferion rheoli tir cyfagos a dylid ceisio sicrhau bod arferion priodol ar waith yn yr ardaloedd o amgylch y ffynonellau cyflenwi hyn. Gallai defnyddio Ardaloedd Diogelu Tarddiad Dŵr gynnig mesur ar sail dalgylch i ddiogelu ansawdd dŵr cyflenwadau preifat.

Cytunwn â'r cynnig i ymchwilio i'r broses o drosglwyddo pibellau cyflenwi dŵr sy'n eiddo preifat i gwmnïau dŵr fel ffordd effeithiol o leihau nifer y gollyngiadau. Nodwn y buddiannau niferus yn ein hymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y broses o reoli pibellau cyflenwadau dŵr preifat yn y dyfodol:

'Byddai gan gwmnïau dŵr bŵer i ddod o hyd i nifer sylweddol o ollyngiadau a'u hatgyweirio, a lleihau cyfanswm y gollyngiadau.

- *Gallai'r arbedion dŵr fod yn sylweddol. Gallai fod effaith fanteisiol ar y cydbwysedd cyflenwi-galw yn enwedig mewn parthau lle mae diffyg ac yn enwedig o gyfuno hyn â rhaglenni mesuryddion clyfar i ganfod gollyngiadau'n gyflym. Bydd lleihau gollyngiadau yn arwain at: lai o dynnu dŵr a gwella cynaliadwyedd/diogelwch y cyflenwad; llai o ddefnydd o ynni ac allyriadau carbon;*
- *Gwella cysylltiau â chwsmeriaid;*
- *Cwsmeriaid yn fwy tebygol o wneud eu rhan i arbed dŵr.*
- *Mae'r adroddiad ar yr adolygiad o'r Lefel Ollyngiadau sy'n Economaidd Gynaliadwy (SELL) yn argymhell y dylid cyfrifo SELL gollyngiadau pibellau cyflenwadau ar wahân. Byddai'r pŵer newydd hwn yn galluogi cwmnïau dŵr i gyfrifo SELL yn fwy trylwyr ar gyfer gollyngiadau pibellau cyflenwadau gan y byddai'r cwmnïau'n gallu rheoli'r gollyngiadau hyn mewn modd mwy cost-effeithiol gan y byddai ganddynt fwy o reolaeth ar sut i reoli gollyngiadau pibellau cyflenwadau. Mae hyn yn debygol o leihau'r gollyngiadau ymhellach.*
- *Byddai cwmnïau dŵr yn gallu rheoli eu mesuriadau perfformiad gollyngiadau yn well gan y byddent yn rheoli'r holl system ddsbarthu dŵr ac yn gyfrifol amdani.*
- *Byddai cwmnïau'n gallu ailosod pibellau cyflenwadau wrth ailosod pibellau'r prif gyflenwad. Byddai hyn yn cynyddu manteision y prosiectau hynny ac yn hwyluso dull o fynd ati fesul stryd a allai fod yn fwy cost-effeithiol.*
- *Byddai defnyddioldeb y rhwydwaith yn gwella;*
- *Gellid gwella ansawdd dŵr yfed gan y byddai hen bibellau'n cael eu hadnewyddu.*
- *Rhaid cael system gyllido addas ar waith i gefnogi'r cwmnïau dŵr a'r asedau ychwanegol y bydd ganddynt gyfrifoldeb drostynt o ganlyniad i'r pŵer newydd hwn.*
- *Byddai'r defnydd isel o fesuryddion mewn eiddo domestig yng Nghymru (~30%) ynghyd ag amledd isel darlleniadau mesuryddion bob blwyddyn yn golygu y byddai nodi gollyngiadau yn parhau'n*

anodd, hyd yn oed gyda'r pŵer newydd hwn.'

20. A ddylem ni ddatblygu ac ymgynghori ar strategaeth hirdymor i ddiddymu'r risgiau iechyd o ddefnyddio plwm mewn gwaith plymio?

Caiff cyfansoddion sy'n cynnwys ffosffad eu hychwanegu at rwydweithiau cyflenwi dŵr er mwyn atal plwm rhag trwytholchi mewn gwaith plymio plwm. Mae'r ffosffad wedyn yn cronni mewn gwaith trin carthffosiaeth ac mae angen ei waredu, a all fod yn gostus. Hefyd, nid oes llawer o ffosffad ar gael felly gall cynnwys cyfansoddion ffosffad fynd yn ddud. Dylai Llywodraeth Cymru, ar y cyd â Dŵr Cymru, gomisiynu gwaith ymchwil i sylwedd amgen yn lle ffosffad er mwyn mynd i'r afael â materion trwytholchi plwm.

Opsiwn arall fyddai gosod gwaith plymio newydd yn lle gwaith plymio plwm. Bydd angen gwneud rhagor o waith i ystyried cost a dichonoldeb yr opsiwn hwn. Gall mabwysiadu pibellau cyflenwi dŵr preifat gynnig ateb ymarferol ond gallai gosod pibellau newydd yn lle pibellau plwm fod yn rhy ddud.

Ymagwedd Newydd at Ddraenio

21. Ydych chi'n cytuno â'n blaenoriaethau ar gyfer materion draenio?

Oherwydd y gwaith arloesol a wnaed gan Dŵr Cymru a thrwy'r "Grŵp Rheoli Dŵr Wyneb a SDCau Cenedlaethol", mae Cymru'n arwain y ffordd o ran meddylfryd a datblygu ym maes SDCau. Mae ganddi hefyd y fantais bod y prif gyfranogwyr i gyd eisoes yn cyd-fynd ac yn gytŷn o ran sut i ddatblygu'r dull gweithredu hwn. Mae hyn yn fantais fawr i Gymru ac yn gyfle na ddylid ei golli.

Mae'r ddogfen yn disgrifio defnydd a buddiannau SDCau a Dylunio Trefol sy'n Sensitif i Ddŵr yn dda iawn, ond credwn fod y cynigion ar gyfer gweithredu'n rhy gyfyngedig ac nad ydynt yn cynnwys digon o fanylion i ddechrau gwrthdroi'r problemau y mae'r atebion hyn yn ceisio eu datrys. Mae'n hen bryd cynnal ymgynghoriad hyddysg ar y broses o weithredu Atodlen 3 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, a byddem yn croesawu ymgynghoriad o'r fath.

Ceir bwriad a nodwyd i adolygu deddfwriaeth ac arferion yn ymwneud â draenio, gan ganolbwyntio ar ddŵr wyneb. Yn ddelfrydol, dylai hyn gynnwys cynnig i fapio'r asedau'n well a/neu wirio cywirdeb cofnodion sy'n bodoli eisoes. Byddai hyn yn helpu i ddatrys problemau'n gynt (y mae llawer ohonynt yn ymwneud â methiannau ym maes dŵr ymdrochi a dŵr pysgod cregyn) a byddai hefyd yn golygu bod modd gwella mapiau'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr o gyrff dŵr sy'n methu.

Mae'n bwysig cofio nad yw Draenio Cynaliadwy yn gyfyngedig i'n trefi a'n dinasoedd ac mae angen i'r dull gweithredu gael ei gymhwyso mewn ardaloedd gwledig. Dengys gwaith fel hwnnw a ddisgrifiwyd eisoes ym Mhontbren (gweler cwestiwn 3) ac adroddiad Asiantaeth yr Amgylchedd ar SDCau Gwledig² sut y gellir cymhwyso'r egwyddorion mewn mannau eraill yng Nghymru ac mae angen i'r Strategaeth derfynol adlewyrchu a chydabod hyn.

Yn ogystal â'r ateb a ddisgrifir yn enghraifft Pontbren, croesawn y cyfle i weithio ar ateb integredig i'r broblem yn ymwneud â draenio priffyrdd ar dir ffermio cyfagos drwy sianeli anffurfiol neu ffosydd. Mae ffermwyr yn honni bod trefniadau o'r fath yn ychwanegu at faint o ddŵr wyneb sy'n cael ei halogi wrth iddo redeg drwy ardaloedd bwydo, pori neu ardaloedd wedi'u haredig neu drostynt. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn awyddus i ffermwyr gydnabod eu cyfrifoldebau i ddelio â'r holl ddŵr halogedig sy'n deillio o'u gweithgareddau, ac nid dim ond y dŵr hwnnw ar fuarth y fferm. Mae arferion draenio priffyrdd o'r fath yn cymhlethu'r ymdrech hon. Mae angen i ddŵr draenio priffyrdd gael ei gyfeirio at bantiau neu systemau draenio ffurfiol eraill drwy dir ffermio.

Croesawn y cyfle i weithio gyda Llywodraeth Cymru i ystyried y buddiannau niferus y gall SDCau eu cynnig i'r amgylchedd, yr economi a chymdeithas.

22. Mae'r adran hon wedi canolbwyntio ar y seilwaith adeiledig, sy'n gwasanaethu ardaloedd datblygedig yn bennaf. A ddylem ystyried unrhyw beth arall ar gyfer ardaloedd gwledig?

Fel yr amlinellwyd uchod, credwn y dylid cymhwyso'r un dulliau gweithredu at ardaloedd trefol a gwledig gan fod yr egwyddorion yn debyg. Rydym am weld pob rheolwr tir yn cydnabod ei gyfrifoldeb am yr holl ddŵr draenio sy'n deillio o'i dir. Mae Pontbren yn enghraifft wych o ddull ecosystem effeithiol o ddatrys y problemau sy'n gysylltiedig â draenio gwledig.

23. A oes unrhyw faterion arwyddocaol eraill y credwn y dylem fod wedi'u cynnwys?

Hoffem weld mwy o ffocws ar ôl-osod datrysiadau SDCau fel y rheini yn Llanelli a Grangetown. Mae'r rhan fwyaf o'r eiddo y byddwn yn ei ddefnyddio yn 2050 eisoes wedi ei adeiladu, a bydd angen i ni ôl-osod systemau draenio cynaliadwy

er mwyn gwrthbwyso effaith newid yn yr hinsawdd a'r mewnlenni a'r ymestyn graddol yn ein cartrefi a'n strydoedd. Oni wneir hyn, bydd llawer mwy o lifogydd dŵr wyneb a tharfu. Mae'r buddiannau'n mynd ymhellach na dim ond lleihau llifogydd, fel y gwelir ym mhrosiect GlawLif yn Llanelli, lle y bydd ôl-osod SDCau yn helpu i wella ansawdd dŵr, creu cynefin a gwella bioamrywiaeth, cynyddu gwerth amwynder a gwella'r amgylchedd trefol er budd dinasyddion. Mae hefyd wedi darparu ardal awyr agored a chyfleoedd dysgu gwell i ddisgyblion ysgol Stebonheath, gan gysylltu darpar ddinasyddion Cymru ag adnoddau naturiol a'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt.

Cefnogi Dulliau Cyflenwi

24. Ydych chi'n cytuno â'n hymagwedd i sicrhau bod gwaith rheoleiddio yn canolbwyntio ar flaenoriaethau Llywodraeth Cymru? A oes gennych chi unrhyw sylwadau neu awgrymiadau eraill ar gyfer y fframwaith rheoleiddio ac a yw'n addas i'r diben?

Rydym wedi cydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru wrth iddi ddrafftio canllawiau diwygiedig ar adran 101A a chroesawn y gwelliannau a gynigiwyd. Cefnogwn y cynnig i drosglwyddo rôl y canolwr mewn anghydfodau o dan adran 101A o Cyfoeth Naturiol Cymru i'r Arolygiaeth Gynllunio fel y nodir yn y Bil Dŵr. Bydd hyn yn galluogi Cyfoeth Naturiol Cymru i weithredu mewn rhinwedd gwbl strategol mewn carthffosiaeth tro cyntaf yn hytrach na gorfod cynnal rôl lled-farnwrol.

Tan yn ddiweddar, rheoleiddiwyd y diwydiant dŵr yn gyfan gwbl ar lefel Cymru a Lloegr. Gyda chreu Cyfoeth Naturiol Cymru, un o dri rheoleiddiwr y diwydiant dŵr (OFWAT, yr Arolygiaeth Dŵr Yfed, Cyfoeth Naturiol Cymru), bellach ceir ffocws ar Gymru. Credwn y gall y gwersi a ddysgwyd o greu Cyfoeth Naturiol Cymru ac unrhyw ddatganoli mewn perthynas â phrosesau craffu eraill ym maes cyfleustodau warantu rhagor o waith ymchwil gan Lywodraeth Cymru.

25. A oes unrhyw weithredoedd eraill y dylem eu cyflawni er mwyn cefnogi arloesedd ar draws y sector dŵr cyfan?

Bydd angen i lawer o'r atebion a'r datblygiadau arloesol sydd eu hangen arnom gael eu datblygu gan ddiwydiant preifat, heb gyswllt uniongyrchol â'r sector dŵr yn aml. Bydd angen dulliau gweithredu amgen i sicrhau y caiff y grwpiau hyn eu cynnwys er mwyn nodi'r dulliau gweithredu newydd hyn. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ddiweddar wedi defnyddio dull partneriaeth â Llywodraeth Cymru a Bwrdd Strategaeth Dechnoleg Defra er mwyn canfod atebion arloesol i broblemau amgylcheddol. Mae'r fenter hon, sef y Fenter Ymchwil Busnesau Bach, yn canolbwyntio ar yr heriau a wynebir gan gyrff cyhoeddus ac yn troi at y sector preifat am atebion posibl. Byddem yn croesawu'r cyfle i weithio gyda Llywodraeth Cymru a diwydiant preifat ar atebion arloesol posibl.

Fodd bynnag, ni allwn ddisgwyl i'r holl ddatblygiadau arloesol a all ein helpu ddod o Gymru. Bydd angen i ni feithrin capasiti i nodi ble mae'r datblygiadau arloesol hyn yn datblygu ledled y byd a bod mewn sefyllfa i sylweddoli pryd y gallant fod yn werthfawr i Gymru. Mae angen i ni hefyd feithrin cysylltiadau gwell a chryfach â'r byd academaidd er mwyn sicrhau ei fod yn deall y materion a'r heriau a wynebir gennym fel y gellir canolbwyntio ymchwil ar atebion priodol.

26. Beth arall y gallai Llywodraeth Cymru ei wneud i helpu busnesau yn y sector dŵr i dyfu a ffynnu'n effeithiol?

Drwy hyrwyddo arfer gorau o ran y defnydd o ddŵr ac elifion, byddai'r diwydiant yng Nghymru ar flaen y gad ym maes technoleg – gan leihau costau ac o bosibl ddatblygu prosesau newydd. Byddai hyn yn codi proffil busnes yng Nghymru a Chymru fel economi werdd.

Mae angen i'r sector dŵr chwarae rhan fwy amlwg yn y mentrau arloesol a

sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru. Byddai hyn yn galluogi'r sector dŵr i ddiffinio ei heriau'n well mewn ffordd a fyddai'n sicrhau bod sectorau eraill, gan gynnwys y byd academiaidd, yn cydnabod yr heriau hyn a bod mewn sefyllfa well i nodi atebion arloesol. Drwy gydweithio o'r fath, gellid datblygu atebion masnachol i lawer o'n heriau allweddol. Er enghraifft, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio gyda Hydro Ltd. i ddatblygu dyfeisiau trin slyri ar raddfa fach.

27. A oes unrhyw weithredoedd eraill y mae angen i Lywodraeth Cymru eu cyflawni er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflwyno'r Strategaeth hon?

Fel y nodwyd yn flaenorol, credwn fod angen cysylltu'r Strategaeth hon yn agosach â chynlluniau, strategaethau a deddfwriaethau eraill. Er enghraifft:

- Er ei bod yn cyfeirio at y Bil Cynllunio, nid oes fawr ddim cyswllt rhyngddo a dyheadau'r Strategaeth hon. Bydd fframwaith y Polisi Adnoddau Naturiol (a gynigiwyd ym Mhapur Gwyn Bil yr Amgylchedd) yn allweddol wrth helpu i gyflawni'r Strategaeth hon yn ei rhinwedd ei hun ac o bosibl drwy ei chysylltiadau â pholisi cynllunio defnydd tir, er enghraifft, y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol arfaethedig. Fodd bynnag, mae angen mwy o eglurder o hyd gan Lywodraeth Cymru ynghylch statws fframweithiau'r Polisi Adnoddau Naturiol o fewn y system gynllunio e.e. wrth lywio'r gwaith o ddatblygu cynlluniau gofodol cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.
- Mae angen cysylltiadau cryf â'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru. Hoffem weld cyfeiriad at adroddiad Cam 2 Adolygu Llifogydd Arfordirol Cymru
- Mae'r broses barhaus o gyflawni'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a gwaith cynllunio basn afon wedi helpu i ehangu dulliau rheoli dalgylchoedd i'r sector tir a dŵr cyfan.

28. Pa wybodaeth fyddai'n ddefnyddiol i asesu sut mae Llywodraeth Cymru wedi cyflawni yn erbyn y canlyniadau a'r gweithredoedd allweddol yn y Strategaeth?

Hoffem weld datganiad neu gynllun clir ar sut y caiff y canlyniadau allweddol eu cyflawni, ac erbyn pryd. Byddai hyn yn golygu bod modd disgrifio'r uchelgais, a mapio cynnydd tuag at ei chyflawni. Wrth nodi'r canlyniadau a'r camau gweithredu, dylai Llywodraeth Cymru gynnwys cyfnodau adolygu penodol fel y gall asesu cynnydd ac ail-alinio ei pholisi os nad yw'r targedau'n cael eu cyflawni. Mae angen iddi hefyd fod yn glir iawn ynghylch y sefyllfa sylfaenol bresennol. Mae hefyd yn hollbwysig bod y partneriaid amrywiol y bydd angen iddynt helpu i gyflawni'r Strategaeth wedi ymrwymo i wneud hynny ac yn deall eu rôl cyflawni.

29: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi'u hystyried, defnyddiwch y lle gwag isod i ddweud wrthym amdanynt:

Tudalen 12 – 'Yn y gyfres nesaf o gynlluniau Rheoli Basn Afon, a fydd yn cael eu cyhoeddi yn 2015, byddwn yn esbonio sut y byddwn yn ceisio cyflawni cydymffurfiaeth o 100% â'r Gyfarwyddeb erbyn 2021'. Mae angen i'r datganiad hwn nodi'n glir y byddwn yn ceisio cyflawni cydymffurfiaeth o 100% yn unol â'r eithriadau y gallwn eu cymhwyso.

Tudalen 12 – anwybyddir ardaloedd gwarchodedig eraill yn ôl pob golwg (ewtroffig, pysgod cregyn) o blaid Dyfroedd Ymdrochi ym Mhrydain?

Tudalen 13, Para 1 – adeiladwyd rhai o'n cronfeydd dŵr mwy o faint yn ystod ail hanner yr 20fed Ganrif – nid ar ddechrau'r ganrif.

Tudalen 17, Blwch 1 – dylid cynnwys Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol.

Tudalen 18, Para 5 – ni chredwn y bydd anweddu o afonydd a chronfeydd dŵr yn cael effaith sylweddol ar ein hadnoddau dŵr. Arwynebedd bach sydd i'r rhan

fwyaf o'n cronfeydd dŵr ac maent yn eithaf dwfn ac oer. Bydd cynnydd mewn lefelau sychdarthu, anweddu a thrydarthu yn broblem fwy.

Tudalen 19, Para 1 - credwn mai'r prif bryder o ran gollyngiadau carthffosiaeth fydd llai o ddŵr yn y cyrsiau dŵr dan sylw a thymereddau uwch (ac felly lefelau is o Ocsigen).

Tudalen 20, Para 1 – Ni chredwn ein bod bellach yn defnyddio 50% yn fwy o ddŵr na 25 mlynedd yn ôl, oni bai bod y ffigur hwn yn cynnwys dŵr sydd wedi'i ymgorffori. Mae angen mwy o eglurder ynglŷn â ffynhonnell y ffigurau hyn.

Tudalennau 23-25 – Nid yw mewn gwirionedd yn nodi'r 14 o Unedau Rheoli Dalgylchoedd, eu cydberthynas â chynlluniau rheoli basn afon, na'r 'Dull ar sail ardal' ym Mil yr Amgylchedd.

Tudalen 27, 28 – Gwerthfawrogi Dŵr, sut y caiff hyn ei wneud yn yr Amgylchedd Morol (e.e. pysgodfeydd, dŵr oeri) ac ar ba raddfa ofodol – terfyn tiriogaethol o 1 forfylltir, 12 morfylltir?

Tudalen 31, pwynt bwled cyntaf – Sut y caiff canlyniadau'r adolygiad parhaus hwn eu rhannu a'u gweithredu? Byddai adolygiad cyfnodol ag adroddiad yn fwy tebygol o gael effaith nac adolygiad parhaus.

Tudalen 35 – Mae'r ddogfen yn nodi "Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn parhau i weithio'n agos i fonitro nitradau mewn cyrff dŵr". Noder nad yw nitradau wedi'i gynnwys yn y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ac felly ni chaiff ei fonitro'n eang ledled Cymru.

Tudalen 44 – Dim ond awgrymu y caiff Cynlluniau Rheoli Asedau eu halinio â chynlluniau rheoli basn afon a wneir, ac nid yw'n nodi bod hynny'n digwydd.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu cyhoeddi, ar y rhyngwyd neu mewn adroddiad. Os hoffech i'ch ymateb aros yn ddiennw, ticiwch yma: